OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1401 (Cy.140)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2002

Wedi'u gwneud - -	*21 Mai 2002*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 42(1) a (2) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 31 Mai 2002.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Diwygir yr Atodlen i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 6, mewnosodwch ar ôl is-baragraff (a) "a", a hepgorwch is-baragraff (c) a'r "ac" o'i flaen.

(3) Yn lle paragraff 8 rhowch—

"**8.** Yr wybodaeth sy'n ymwneud ag—

(a) disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol, neu'r gyflogaeth neu'r hyfforddiant y mae disgyblion yn dechrau arnynt wrth ymadael â'r ysgol; a

(b) absenoldeb awdurdodedig neu ddiawdurdod disgyblion,

y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn llawlyfr yr ysgol yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 537(1) o Ddeddf 1996(**4**).".

(**1**) 1998 p.31. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 142(1).
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2001/1110 (Cy. 54).
(**4**) Amnewidiwyd adran newydd 537(1) gan baragraff 152 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Y Rheoliadau cyfredol yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999, O.S. 1999/1812, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1111 (Cy.55) ac O.S. 2002/1394 (Cy.37).